Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru
National Imaging Academy Wales



# Strategaeth 3-Blynedd Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru

2024 - 2027









04 Cyflwyniad

05 Cyd-destun Strategol ac Aliniad

08 Ein Gweledigaeth a'n Cenhadaeth

10 Nodau Strategol

12 Prif Flaenoriaethau

14 Ein Cyflawniadau

16 Ein Rhanddeiliaid

19 Sut mae Llwyddiant yn Edrych

# Cyflwyniad

## Beth yw Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru?

Cafodd Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru (ADdGC) ei sefydlu yn 2018 i hwyluso'r capasiti cynyddol ar gyfer hyfforddiant Radiolegwyr yng Nghymru. Mae cwmpas uchelgais yr Academi yn llawer ehangach, wedi'i gefnogi gan yr Achos Cyfiawnhad Busnes a Datganiad o Fwriad Delweddu Llywodraeth Cymru.

Mae ADdGC yn darparu cyfleuster hyfforddi pwrpasol sy'n gyfrifol am:

- Goruchwylio hyfforddi, addysgu a datblygu gweithlu delweddu diagnosteg.

Mae ADdGC yn cyflawni ei huchelgais i:

- Darparu cyfleuster hyfforddi pwrpasol sy'n gyfrifol am hyfforddi, addysgu a datblygu'r gweithlu delweddu diagnosteg dan oruchwyliaeth.
- Gweithredu fel canolbwynt naturiol ar gyfer cydweithredu, ymchwil ac arloesi yn y gymuned ddiagnosteg.

Mae ADdGC yn bwriadu:

- Galluogi a buddsoddi mewn ymchwil, addysg a hyfforddiant, gan ddarparu cymorth ar draws Gwasanaethau Delweddu GIG Cymru.
- Hwyluso prosiectau arloesi ac ymchwil, gan gydweithio â GIG Cymru, y byd academaidd a diwydiant.







# Cyd-destun Strategol ac Aliniad

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn nodi ei gweledigaeth i gael cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl mor uchel â phosibl a lle mae dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall.




Mae ADdGC yn cefnogi'r weledigaeth hon drwy:

- Darparu dull hyblyg, ymatebol a chydweithredol o hyfforddi'r gweithlu, arloesi ac ymchwil.
- Gwella'r cyfleoedd presennol i wneud y gorau o rôl y gweithlu delweddu diagnosteg wrth atgyfeirio, caffael, dehongli ac adrodd ar ddelweddau diagnosteg.

# Cyd-destun Strategol ac Aliniad

## Datganiad o Fwriad o ran Delweddu, 2018

Mae'r Datganiad o Fwriad o ran Delweddu yn mynegi dymuniad Llywodraeth Cymru i:

- Gefnogi gweithlu delweddu esblygol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- Sefydlu sylfaen academaidd ac ymchwil gryf y gellir ei defnyddio i ddatblygu, gwerthuso a defnyddio arloesiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fewn gwasanaethau delweddu diagnosteg ar draws GIG Cymru.

Mae ADdGC yn cefnogi'r datganiad o fwriad drwy:

- Hwyluso hyfforddiant, addysg a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer gweithwyr proffesiynol delweddu diagnosteg ar draws GIG Cymru.
- Cydweithio â phartneriaid academaidd, diwydiant a'r GIG i ddatblygu, gwerthuso a gweithredu technolegau ac arferion arloesol.
- Sicrhau bod cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn ganolog i beth rydyn ni'n wneud a'i fod yn weladwy yn ein holl fusnes.
- Buddsoddi mewn hyfforddiant, arloesedd ac ymchwil mewn delweddu diagnosteg ar draws GIG Cymru.
- Buddsoddi a chefnogi'r gwaith o nodi, gwerthuso a hyfforddi yn y defnydd o offer a thechnolegau newydd sy'n cynnig offer delweddu effeithiol a chynaliadwy i Wasanaethau Delweddu GIG Cymru.
- Sicrhau bod ymgysylltu â holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru yn ganolog i beth rydyn ni'n wneud.
- Cefnogi mynediad teg i systemau gwybodeg delweddu ledled Cymru.
- Sicrhau bod gwella ansawdd a llywodraethu priodol yn ganolog i beth rydyn ni'n wneud.



# Cyd-destun Strategol ac Aliniad Ansawdd

Mae ADdGC wedi ymrwymo i sicrhau bod gwelliannau ansawdd yn weladwy ym mhob elfen o'i fusnes.

Mae Sefydliad Rhyngwladol er Safoni yn sefydliad rhyngwladol annibynnol, anllywodraethol.

Bydd ADdGC yn buddsoddi mewn ansawdd drwy:

- Benodi Rheolwr Ansawdd.
- Sicrhau bod gwelliannau parhaus yn ganolog i'r busnes.
- Gweithredu System Rheoli Ansawdd.
- Gweithio tuag at a chael ardystiad ar gyfer y safon a gydnabyddir yn fyd-eang ar gyfer rheoli ansawdd, ISO9001.

# Ein Gweledigaeth a'n Cenhadaeth

Ein Gweledigaeth yw hwyluso ac arwain hyfforddiant delweddu diagnosteg, arloesi ac ymchwil, gan ddarparu canolbwynt naturiol ar gyfer cydweithio mewn delweddu diagnosteg ar gyfer GIG Cymru.

Ein Cenhadaeth yw grymuso'r Gymuned Delweddu Diagnosteg i wella gwasanaethau'r GIG yn barhaus trwy alluogi cyflawni eu huchelgeisiau proffesiynol ac academaidd.








Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- Roi ein hymrwymiad i ddarparu'r gwasanaeth gorau i'n cleifion.
- Gwrando ar ein cydweithwyr yn y GIG ledled Cymru i nodi a cheisio mynd i'r afael â bylchau mewn hyfforddiant o fewn y Gymuned Ddelweddu.
- Cydweithio â Chymuned Delweddu GIG Cymru i safoni ansawdd hyfforddiant ledled Cymru.
- Gweithio gyda'n cydweithwyr yn y GIG, academia a phartneriaid diwydiant i greu cyfleoedd ymchwil sy'n ysgogi llwyddiant personol a phroffesiynol.
- Datblygu ein timau trwy ddarparu cyfleoedd i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth.
- Creu diwylliant cefnogol o chwilfrydedd, dysgu ac arloesi.
- Sicrhau bod ansawdd yn ganolog i beth rydyn ni'n wneud.

# Nodau Strategol

1. Hwyluso a datblygu hyfforddiant, arloesi, cydweithredu ac ymchwil ar draws Delweddu Diagnosteg GIG Cymru.
2. Ymgysylltu â sefydliadau GIG Cymru i sicrhau bod eu hanghenion wrth wraidd beth rydyn ni'n wneud, a cheir tystiolaeth ar draws ein cyflawniad busnes.
3. Hwyluso cyfleoedd dysgu a datblygu sy'n helpu i newid ac ad-drefnu modelau gwasanaeth presennol i wella llwybrau gofal cleifion.
4. Galluogi gweithio mewn partneriaeth, gan anelu at gyflawni gwerth gorau trwy rannu sgiliau, profiad a/neu adnoddau gan bob cydweithredwr.
5. Nodi a blaenoriaethu rhaglenni a phrosiectau a fydd yn cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar wasanaethau delweddu diagnosteg.










"Rhan arwyddocaol o'r ateb i'r ddiffyg yn y gweithle yw gwella'r capasiti hyfforddi yn sylweddol."
(Datganiad o fwriad o ran delweddu, 2018)

# Prif Flaenoriaethau

## Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

- Defnyddio gallu unigryw ADdGC o fewn cyfleuster gweithfan gwylio Delweddu GIG Cymru.
- Blaenoriaethu hyfforddiant lle mae angen gwasanaeth delweddu diagnosteg cael ei nodi.
- Blaenoriaethu hyfforddiant nad yw'n cael ei hwyluso na'i gefnogi yn GIG Cymru ar hyn o bryd, gan osgoi dyblygu diangen.
- Hwyluso mwy o hyfforddiant angenrheidiol lle nad oes digon o gapasiti yn y gwasanaeth delweddu diagnosteg.

## Ymchwil a Gwerthuso

- Darparu canolbwynt ar gyfer ymchwil o fewn delweddu diagnosteg.
- Cynnal prosiectau gwerthuso gwasanaeth i gyfrannu at wella gwasanaethau delweddu.
- Hyrwyddo diwylliant o ymchwil a gwerthuso ar draws y gymuned delweddu diagnosteg.
- Hwyluso gwybodaeth a sgiliau i gefnogi ymchwil a gwerthuso effeithiol ar draws y gymuned delweddu diagnosteg.
- Darparu arweiniad a chymorth llywodraethu ac ansawdd.

## Arloesi

- Creu'r gallu i ragweld, profi ac ymateb i dueddiadau a heriau sy'n dod i'r amlwg.
- Cefnogi'r gymuned Ddelweddu i deimlo'n hyderus wrth ymgysylltu â ffyrdd newydd o weithio a rhoi technoleg newydd ar waith.
- Darparu cyfleuster i gefnogi arloesedd o fewn delweddu diagnosteg.

## Cydweithio, Ymddiriedolaeth a Phartneriaeth

- Cydweithio, Ymddiriedolaeth a Phartneriaeth.
- Ym mhopeth rydyn ni'n wneud, ystyried y rheini â nodweddion gwarchodedig a grwpiau lleiafrifol wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd.
- Hwyluso a galluogi cydweithio ar draws GIG Cymru, y byd academaidd a diwydiant.
- Rhannu gwybodaeth i gryfhau ein dealltwriaeth o'r heriau sy'n effeithio ar y gymuned delweddu diagnosteg.
- Adeiladu ar bartneriaethau gwaith presennol i gryfhau perthnasau parhaus.





# Ein Cyflawniadau

## Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

- Darparu amgylchedd dysgu cefnogol gyda diwylliant o ymddiriedaeth a chydweithio.
- Hwyluso mentora, hyfforddi ac arwain.
- Hwyluso caffael gwybodaeth a sgiliau, gan sicrhau mwy o hyder ymhlith addysgwyr Gwasanaeth Delweddu GIG Cymru trwy brofiadau academaidd ac ymarferol â chymorth.
- Profiad gwell o gynefino i bobl dan hyfforddiant a hyfforddwyr.
- Cefnogi hyfforddiant rheoli Radiograffwyr.
- Penodi arweinydd Uwchsain Pwynt Gofal (POCUS).
- Creu a gweithredu strategaeth hyfforddi POCUS.
- Ehangu hyfforddiant i'r Gymuned Delweddu Diagnosteg ehangach gan gynnwys Gweithwyr Cymorth Clinigol Radioleg.
- Sefydlu cymuned amlddisgyblaethol o addysgwyr ôl-raddedig, mentoriaid a thiwtoriaid sy'n ymroddedig i hyrwyddo gwelliannau mewn addysg.
- Cefnogi Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) Gweithwyr Delweddu Proffesiynol.
- Mae ADdGC yn cynnal amgylchedd hyfforddi croesawgar, lle gwych i weithio.
- Datblygu cynllun cyn-fyfyrwyr ar gyfer cyn gweithwyr dan hyfforddiant ac eraill i barhau i gymryd rhan a chyfrannu at ADdGC ar draws y disgyblaethau Delweddu Diagnosteg.

## Ymchwil a Gwerthuso

- Sicrhau bod ADdGC yn gallu darparu gallu adrodd radioleg cenedlaethol.
- Hwyluso a galluogi Ymchwil a Gwerthuso.
- Penodi Arweinydd Ymchwil.
- Ennill achrediad ansawdd ffurfiol i sicrhau bod lefel uchel o ansawdd a diogelwch cleifion wrth wraidd beth rydyn ni'n wneud (ISO 9001).
- Defnyddio tystiolaeth ymchwil i gyfrannu at wella gwasanaethau delweddu diagnosteg GIG Cymru.
- Hwyluso'r defnydd o ddata delweddu diagnosteg a gesglir fel mater o drefn i lywio'r gwaith o wella gwasanaethau ac ymchwil.
- Creu portffolio adnoddau i gefnogi a chyfeirio prosiectau ymchwil.
- Gwreiddio gwerthuso ac ymchwil o fewn swyddogaethau ADdGC.

## Arloesi

- Dilyn y data a rhoi atebion Power BI ar waith i wella gweithrediadau Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru (ADdGC).
- Cyfrannu at hyfforddiant ac ymchwil, gan lywio arloesedd o fewn delweddu diagnosteg y GIG.
- Darparu cymorth drwy'r data rydyn ni'n casglu i roi atebion ar waith ar gyfer gwella gwasanaethau.
- Hwyluso gwerthusiadau rhanbarthol a chenedlaethol o offer delweddu a dyfeisiau meddygol.



## Cydweithio, Ymddiriedolaeth a Phartneriaeth

- Sicrhau bod y claf yn ganolog i'n hyfforddiant, arloesedd ac ymchwil.
- Rhannu gwybodaeth ar draws GIG Cymru.
- Sicrhau bod strategaeth ADdGC yn cyd-fynd â'r datganiad o fwriad delweddu ac yn cael effaith gadarnhaol ar wasanaethau delweddu ledled Cymru.
- Hwyluso a chefnogi rhannu gwybodaeth ar draws GIG Cymru trwy gyfranogiad gweithredol mewn strategaeth ranbarthol a chenedlaethol, darparu gwasanaethau a grwpiau/byrddau diddordeb arbennig.
- Datblygu a chynnal perthnasoedd dibynadwy gyda'r byd academaidd, diwydiant, Llywodraethau Cymru a'r DU.
- Adeiladu enw da ADdGC o fewn y Gymuned Diagnosteg ehangach.

# Ein Rhanddeiliaid

Mewnol

Teulu GIG Cymru

Academyddion ac Ymchwilwyr

Arbenigwyr Diwydiant




Prifysgolion/Ysgolion

Cyrff/Fforymau Proffesiynol

Ardal

Partneriaid Llywodraeth a Diwydiant





## Tîm Mewnol

- Ein Tîm, Gweinyddol, Rheolaethol, Technegol, Hyfforddwyr a Gweithwyr dan hyfforddiant
- Sefydliad sy'n cael ei Gynnal (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg)

## Teulu GIG Cymru

- Gweithrediaeth y GIG
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol (gweithrediaethau/cynllunio/rheoli'r gweithlu)
- Delweddu Proffesiynol/Arbenigeddau
- Radiolegwyr/Radiograffwyr/Sonograffwyr
- Gweithwyr Cefnogi Radioleg
- Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd/ Gwyddonwyr Gofal Iechyd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (Gwasanaethau Sgrinio)
- Cronfa Risg Cymru
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru

## Arloesedd ac Ymchwil

- Academyddion
- Gofal Iechyd ac Ymchwil Cymru (HCRW)
- Sefydliadau Gwyddoniaeth Bywyd/Ymchwil Data Iechyd
- Adnodd Data Cenedlaethol (NDR)
- Sefydliadau Ymchwil Eraill

## Arbenigwr Diwydiant

- Darparwyr PACS
- Darparwyr AI
- Cynhyrchwyr Offer Radioleg
- Cyflenwyr Deunyddiau Addysgol

## Cymuned Ehangach

- Ysgolion a Cholegau

## Cyrff/Fforymau Proffesiynol

- Colegau Brenhinol y Radiolegwyr (RCR)
- Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA)
- Cymdeithas y Radiograffwyr (SoR)
- Cymdeithas Uwchsain Meddygol Brydeinig (BMUS)
- Colegau Brenhinol eraill
- Fforwm Partneriaeth Cymru
- Diverse Cymru
- Cyrff Rheoleiddio
- Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)
- Cynghorau Iechyd Cymuned

## Ardal

- Cyfryngau Lleol
- Allgymorth Cymunedol
- Busnes Lleol

## Partneriaid Llywodraeth a Diwydiant

- Llywodraeth Cymru (Iechyd)
- Rhaglenni Cenedlaethol (delweddu)
- Gwledydd y GIG /Cyrff Gofal Iechyd
- Academïau Delweddu Radioleg ledled y DU (Rhyngwladol)







# Sut Mae Llwyddiant yn Edrych

Mae Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru (ADdGC) yn gyfleuster sy'n galluogi GIG Cymru

Canlyniadau



Academi Ddelweddu
Genedlaethol **Cymru**

National Imaging
Academy **Wales**